

**Arolygiad Urddas a Gofal
Hanfodol (Dirybudd)
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda –
Ysbyty Bronglais –
Ward Rhiannon**

17 Gorffennaf 2014

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn:	0300 062 8163
Ebost:	agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs:	0300 062 8387
Gwefan:	www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	2
2.	Methodoleg.....	2
3.	Cyd-destun	3
4.	Crynodeb	4
5.	Canfyddiadau	6
	Ansawdd Profiad y Claf	6
	Cyflenwi Hanfodion Gofal	8
	Ansawdd Rheoli Staff ac Arweinyddiaeth	15
	Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol	16
6.	Y Camau Nesaf	16
	Atodiad A.....	22

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol ar Ward Rhiannon, Ysbyty Bronglais, rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, yn ddirybudd ar 17eg Gorffennaf 2014.

Mae ein harolygiad yn ystyried y materion canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf
- Cyflenwi Hanfodion Gofal
- Ansawdd Rheoli Staff ac Arweinyddiaeth
- Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol

2. Methodoleg

Mae 'Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol' AGIC yn arolygu'r ffordd mae urddas cleifion yn cael ei gynnal mewn ward/uned/adran ysbyty a'r gofal nyrsio hanfodol, sylfaenol y mae'r cleifion yn ei dderbyn.

Rydym yn arolygu dogfennau a gwybodaeth wrth nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir hyd heddiw gan AGIC
- Sgyrsiau gyda chleifion, perthnasau a chyfweliadau gyda staff
- Trafodaethau gydag uwch reolwyr y Bwrdd Iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau sy'n sail i ofal cleifion
- Arsylwadau cyffredinol o amgylchedd y gofal a'r arferion gofal

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau'r gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Gall yr arolygiadau hyn dynnu sylw at faterion ehangach ynglŷn ag ansawdd a diogelwch urddas a gofal hanfodol.

3. Cyd-destun

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ym mis Hydref 2009 yn dilyn Rhaglen Diwygio'r GIG 2008-2009, a gyflwynodd gofal iechyd integredig i Gymru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am iechyd a lles y boblogaeth ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro; mae hefyd yn darparu amrywiol wasanaethau i drigolion de Gwynedd a Phowys. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwasanaethu chwarter yr ehangdir yng Nghymru, gyda phoblogaeth o ryw 375,061 o bobl.

Cyflenwir gwasanaethau gofal cymunedol ac eilaidd y Bwrdd Iechyd trwy'r canlynol:

- Pedwar ysbyty: Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth, Ysbyty Glangwili yng Nghaerfyrddin, Ysbyty Tywysog Philip yn Llanelli ac Ysbyty Llwynhelyg yn Hwlfordd
- Wyth ysbyty cymunedol
- Un ar ddeg canolfan iechyd.

Ysbyty Bronglais

Lleolir Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth, yng nghanolbarth Cymru. Mae gan yr ysbyty ryw 200 gwely ac mae'n darparu amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleusterau cleifion mewnol a chleifion allanol, gwasanaethau iechyd meddwl ynghyd ag Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys a chyfleusterau Diagnostig.

Fel rhan o raglen arolygu flynyddol AGIC, bu i ni ymweld â Ward Rhiannon, sy'n ward lawfeddygol gyffredinol 16 gwely.

4. Crynodeb

Ward Rhiannon:

Yn gyffredinol, fe'n croesawyd gan dîm o staff cyfeillgar, hawdd siarad â hwy a threfnus ar ward brysur, yn ymdrechu bob amser i sicrhau bod profiad y claf mor gadarnhaol ag y bo modd.

Er nad oedd Rheolwr y Ward na'r dirprwy ar gael adeg yr arolygiad, roedd y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda o hyd a rhoddwyd sylw i gadw safonau gofal proffesiynol.

Gwelsom arweinyddiaeth gref a chadarnhaol gan y nyrs staff â gofal ar ddiwrnod yr ymweliad. Rhoddodd y nyrs staff gymorth ac arweiniad ac fe'i gwelwyd yn rhoi cyfarwyddiadau ac yn cael adborth gan staff. Felly, roedd awyrgylch y ward yn ddigynnwrf a than reolaeth o ganlyniad i'w hymyrraeth hi.

Gwelwyd staff nyrsio yn sicrhau preifatrwydd, urddas a pharch cleifion wrth rannu gwybodaeth. Er gwaethaf natur brysur ac anrhagweladwy'r ward, ymddengys fod yr holl staff yn gweithio'n dda fel tîm i sicrhau darpariaeth gofal di-dor o ansawdd.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom ffocws ar asesu a rheoli gofal unigol cleifion yn briodol. Ar wahanol adegau, cyn ac ar ôl llawfeddygaeth, roedd gan gleifion anghenion gofal gwahanol yn gysylltiedig â'r lefel o ddibyniaeth. Gwelsom arferion gofal a oedd yn unol â hyn, gan gynnwys monitro arsylwadau ar ôl llawdriniaeth a rheoli poen.

Roedd pwyslais cryf ar wella ac adsefydliad cynnar i gleifion ar ôl llawfeddygaeth, ac roeddynt oll wedi cael gwybodaeth dda ynglŷn â'r trefniadau i'w rhyddhau adref.

Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn ddiarogl, gydag arwyddion priodol i'w gweld ar reoli heintiad a defnyddio arwyddion pan roedd gwaith glanhau yn mynd rhagddo.

Gwelwyd nifer o feysydd o arferion nodedig:

- Defnyddio napcynau coch yn lle hambyrddau coch i sicrhau bod cleifion a oedd angen cymorth i fwyta yn cael eu hamlygu.
- Roedd arweinyddiaeth yn amlwg ac yn rhoi cyfeiriad priodol, gan sicrhau amgylchedd cadarnhaol i'r staff a lefel dda o ofal i'r cleifion.

- Rhoddwyd enghreifftiau pan ddefnyddiwyd Systemau Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS)¹ a lle'r oedd cleifion gydag anghenion cymhleth wedi eu cynorthwyo ar y ward.

Er gwaethaf yr arferion da a welwyd uchod, bu i ni nodi nifer o feysydd lle gellid gwella yn y pedwar parth. Yn fras, roedd y meysydd lle gellid gwella yn cynnwys:

- Dogfennau darniog a beichus.
- Defnyddio'r Ward Lawfeddygol ar gyfer cleifion Meddygol.
- Tanddefnyddio'r man cyffredin a oedd ar gael.
- Datblygu amgylchedd cefnogol i gleifion gyda nam gwybyddol.
- Rhai meddygon nad oeddent yn llofnodi cofnodion yn briodol.

Mae manylion y meysydd lle gellid gwella, a'n gofynion, wedi eu nodi yn Atodiad A.

¹Mae PECS yn becyn ymyrraeth cyfathrebu amgen i unigolion gydag anhwylder sbectrwm awtistiaeth ac anableddau datblygiadol cysylltiedig. Mae PECS yn dechrau trwy ddysgu unigolyn i roi darlun o eitem y mae ei heisiau i bartner cyfathrebu, sy'n anrhydeddu'r cyfnewid ar unwaith.

5. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Yn ystod yr arolygiad hwn, rydym wedi gwneud **tri** chanfyddiad lle mae angen gwella yn y maes hwn. Manylir ein gofynion yn Atodiad A.

Yn gyffredinol, gwelsom fod profiad y cleifion yn dda. Gwelsom fod staff yn broffesiynol, yn gyfeillgar ac yn barchus yn eu dull, gyda phob agwedd o ofal cleifion yn cael ei hymgydryd mewn modd cynnil a sensitif. Roedd yr amgylchedd yn ddigynnwrf, wedi ei drefnu'n dda, yn lân ac yn ddiarogl a oedd yn gwneud y ward yn lle ffafriol i'r cleifion a'r staff.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom wasanaeth wedi ei drefnu'n dda. Dywedodd cleifion wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth dda ynglŷn â'u gofal, eu triniaeth a'r trefniadau trosglwyddo/rhyddhau. Dywedodd cleifion eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn siarad ag unrhyw aelod o staff yn y tîm amlddisgyblaeth os oedd ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon ynglŷn â'u gofal.

Trwy gydol ein harolygiad, gwelsom staff Nyrsio, staff Meddygol a staff Therapi yn siarad â chleifion ac aelodau eraill tîm y Ward mewn modd proffesiynol a chwrtais. Wrth yr orsaf waith, gwelsom staff Meddygol a Nyrsio yn siarad yn ddiffwdan. Rhoddwyd gofal a sylw dyledus i natur gyfrinachol gwybodaeth a nodiadau achosion cleifion. Roedd staff wedi eu gwisgo yn unol â Chod Gwisg Cymru Gyfan, ond roedd rhai aelodau staff nad oeddent yn gwisgo bathodyn enw sy'n cynorthwyo cleifion i adnabod eu rôl ar dîm y ward. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn derbyn gofal yn ystod y dydd a'r nos. Gwelsom hefyd fod staff yn ymateb yn brydlon i geisiadau am gymorth.

Gwelsom dystiolaeth yn nodiadau achos y cleifion a oedd yn dangos bod y drefn i ryddhau cleifion yn cael ei rheoli a'i chyd-gysylltu yn dda trwy gydol eu harhosiad, gyda chynllunio rhyddhad effeithiol a chyfathrebu rhwng staff yr ysbyty a staff cymunedol. Roedd y cleifion y siaradom ni â hwy i'w gweld yn chwarae rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â throsglwyddo a rhyddhau.

Fodd bynnag, siaradom gydag un claf a oedd yn aros i gael ei drosglwyddo yn ôl i'r ward yr oedd arni yn flaenorol. Dyma'r trydydd tro y byddai'n cael ei drosglwyddo yn ystod yr arhosiad byr hwn yn yr ysbyty. Nid yw hon yn arfer dda a dylid osgoi trosglwyddiadau diangen rhwng wardiau lle bo modd.

Mewn blynnyddoedd diweddar, roedd yr adran wedi mynd trwy raglen o ailwampio, ond nid oedd y cynllun newydd yn cynnwys baddon, ac felly dim ond cawod y gallai'r cleifion ei chael. Roedd hyn yn golygu nad oedd dewis o ran ymolchi. Dywedodd cleifion eu bod yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i gael cawod bob dydd.

Dywedodd cleifion fod y bwyd yn dda, yn well yn ystod yr wythnos nag ar y penwythnos, ac nad oeddent yn cael eu brysio i orffen eu pryd bwyd oherwydd y broses “amser bwyd a amddiffynnir”. Nid oedd cleifion ar y ward yn ystod yr ymweliad a oedd angen cymorth.

Nodwyd nad oedd radio, dim ond un teledu a dim gweithgareddau i'r cleifion a oedd yn gwella. Nid oedd lle eistedd cyffredin lle gallai'r cleifion sgwrsio. Fodd bynnag, roedd ystafell aros ddydd i gleifion dydd y gellid ei defnyddio gyda'r nos ac ar benwythnos a thrafodwyd hyn gyda'r staff fel ffordd ymlaen.

Rhaid i bob aelod staff wisgo bathodyn adnabod.

Mae angen diwallu darpariaeth i sicrhau bod cleifion yn gallu dilyn gweithgareddau ystyrlon.

Mae angen i staff hybu defnyddio'r ystafell aros, pan fydd ar gael, i annog cymdeithasu ac adsefydliad.

Cyflenwi Hanfodion Gofal

Yn ystod yr arolygiad hwn, cafwyd **chwe** chanfyddiad lle mae angen gwelliannau yn y maes hwn. Manylir ein gofynion yn Atodiad A.

Yn gyffredinol, dangosodd ein canfyddiadau bod y maes clinigol yn cyflawni'n dda o ran cyflenwi Hanfodion Gofal. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod yn fodlon gyda'u gofal a bod y staff yn eu trin gydag urddas a pharch.

Cyfathrebu a Gwybodaeth

Rhaid i bobl dderbyn gwybodaeth lawn ynglŷn â'u gofal mewn iaith a dull sy'n sensitif i'w hanghenion.

Gwelsom fod staff yn cyfathrebu'n briodol ac yn cynorthwyo cleifion yn ystod eu harhosiad ar y ward. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu.

Gwelsom ymadwaith rhwng staff a chleifion/perthnasau yn unol â'r safon sy'n ofynnol gan yr 'Hanfodion Gofal'. Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion a'r perthnasau y bu i ni siarad â hwy yn ystod yr arolygiad eu bod yn teimlo iddynt gael gwybodaeth ddigonol ynglŷn â rheolaeth gofal a thriniaeth.

Gwelsom fod cleifion yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r gofal mewn iaith a dull a oedd yn sensitif i'w hanghenion, yn rhannol oherwydd bod staff meddygol a nyrsio yn siarad â chleifion mewn modd ystyriol, heb frysio. Rhoddwyd enghreifftiau i ni gan y nyrs staff â gofal pan ddefnyddiwyd PECS i gyfathrebu'n effeithiol gyda chlaf. Dywedwyd wrthym hefyd eu bod yn cynnwys perthnasau a chyfeillion wrth drafod dymuniadau wrth gynllunio gofal os oedd unrhyw broblemau cyfathrebu / iaith.

Er bod nodiadau'r cleifion yn cynnwys gwybodaeth bersonol ac asesiadau risg priodol, gwelsom fod y cynlluniau gofal yn rhai generig, heb fod yn canolbwyntio ar y claf, a chadarnhawyd hynny wrth drafod gyda'r staff. Felly nid oes tystiolaeth bod gofal unigol yn cael ei hyrwyddo. Roedd cofnodion yn nodi bod gofal wedi ei roi yn unol â'r cynllun ond dim tystiolaeth o werthuso i sicrhau bod gofal yn effeithiol. Gwelsom dystiolaeth o waith cynllunio rhyddhau da gydag atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymunedol priodol.

Nodwyd bod dwy set o nodiadau nyrsio claf, un wrth y gwely ac un yn yr orsaf nyrsio. Roedd dogfennau gwahanol wedi eu ffeilio yn y ddwy set. Roedd felly'n anodd mynd trwy un set o ddogfennau heb gyfeirio at y llall, gan wneud y system yn feichus ac yn cynrychioli risg posibl. Nid oedd staff parhaol na staff banc yn cael cyfarwyddiadau clir i roi gofal a chymorth i bob claf yn unol â'u hanghenion, dymuniadau a hoffterau. Rydym yn deall bod hyn yn ddogfennaeth newydd gan y Bwrdd Iechyd ac nad yw'r problemau hyn yn

benodol i'r ward hon yn unig. Mae angen i'r ward felly sicrhau bod y dogfennau ar gyfer y cleifion dan eu gofal yn gadarn ac yn nodi'n glir y gofal unigol sydd angen ei roi.

Edrychwyd ar nodiadau meddygol y cleifion a gweld bod achosion lle'r oedd y meddygon wedi cofnodi gwybodaeth, wedi llofnodi ond heb brintio eu henw na'u teitl. Mae arferion da yn gofyn bod meddygon yn llofnodi ac yna yn printio eu henw a'u teitl. Bydd hyn yn dangos pwy sy'n cofnodi, cymryd penderfyniad neu'n cytuno gyda'r penderfyniadau. Mae hyn yn ofyniad yn y canllawiau Arferion Meddygol Da² : Parth 1, adran 21. Hefyd, roedd un set o nodiadau claf nad oedd ganddynt ffolder werdd. Roedd hyn yn risg posibl gan nad oedd y dogfennau yn edrych fel set o nodiadau i ddechrau.

Nid oedd arwyddion gyda lluniau i gynorthwyo cleifion sy'n byw â nam gwybyddol, sef diffyg gallu i brosesu gwybodaeth. Gallai'r amgylchedd felly fod yn ddryslyd a pheri gofid.

Mae angen i'r dogfennau nodi anghenion nyrsio unigol, amlinellu ymyraethau a gwerthuso effeithiolrwydd triniaeth. Mae angen i hyn fod ar ffurf hawdd ei defnyddio.

Mae angen i feddygon lofnodi, printio a nodi eu teitl wrth gofnodi pwyntiau yn nodiadau'r claf.

Mae angen ffeilio nodiadau meddygol cleifion yn briodol ac mewn modd amserol.

Parchu Pobl

Rhaid amddiffyn hawliau dynol sylfaenol i urddas, preifatrwydd a medru cymryd penderfyniadau cytbwys, a rhaid i'r gofal a ddarperir gymryd anghenion, galluoedd a dymuniadau'r claf i ystyriaeth.

Gwelsom lawer o enghreifftiau o ymadwaith cyfeillgar ond parchus rhwng staff a chleifion wrth gynorthwyo gyda symud, ymolchi a gwisgo.

Yn ystod yr arolygiad, gwelwyd ymdrechion gan staff i warchod hawliau dynol sylfaenol cleifion i urddas, preifatrwydd a dewis. Cawsom hefyd bod y gofal a roddwyd ar y ward yn cymryd galluoedd a dymuniadau cleifion i ystyriaeth yn hyn o beth. Roedd hyn oherwydd bod tystiolaeth bod staff yn sicrhau preifatrwydd ac urddas trwy gau drysau a llenni cyn ymgymryd ag unrhyw ofal personol. Ni welsom arwyddion preifatrwydd yn cael eu defnyddio ar y llenni o amgylch y gwelyau ond ni welsom unrhyw staff yn mynd i mewn, ac eithrio i gynorthwyo gyda gofal, pan roedd y llenni ar gau. Dywedodd y staff bod

² *Good Medical Practice* yw'r canllawiau ar ddyletswyddau meddyg sydd wedi ei gofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol

cyfrinachedd yn cael ei sicrhau trwy drafod unrhyw faterion personol ar adegau tawelach neu trwy siarad yn gynnil y tu ôl i lenni'r gwely.

Mae angen i'r Ward sicrhau bod pegiau preifatrwydd ar gael.

Hyrwyddo Annibyniaeth

Rhaid i'r gofal a ddarperir barchu dewisiadau'r person wrth wneud y mwyaf o'u gallu a'u dymuniad i ofalu amdanynt eu hunain.

Gwelsom rai cleifion yn cael eu cynorthwyo i fod mor gorfforol annibynnol â phosibl – gwelsom gleifion yn cael eu hannog i symud gyda chymhorthion cerdded priodol, gyda'r staff yn rhoi cymorth moesol a chorfforol. Gwelsom gleifion yn cael therapi gan y Ffisiotherapydd hefyd.

Roedd yr holl gleifion a welwyd ar y dydd yn eistedd yn y gwely neu mewn cadair wrth y gwely. Dywedodd cleifion nad oeddent yn cael eu hannog i wisgo dillad dydd, ac nad oedd llawer o bwynt mewn gwisgo i fynd yn ôl i'r gwely eto. Esboniodd staff fod hyn oherwydd bod gan lawer o gleifion rwymyn neu driniaethau ar ôl llawfeddygaeth yr oedd angen eu gwneud ac felly ni fyddai dillad arferol yn addas.

Nid oedd tystiolaeth bod arwyddion priodol i gynorthwyo pobl gydag anawsterau gwybyddol i ddefnyddio'r cyfleusterau gofal personol yn annibynnol.

Rhaid i'r ward sicrhau bod arwyddion priodol ar gael i gynorthwyo cleifion gydag anhawster gwybyddol i gadw eu hannibyniaeth hyd eithaf eu gallu.

Perthnasau

Rhaid annog pobl i gadw eu cysylltiad gyda'u teulu a'u cyfeillion a datblygu perthynas ag eraill yn unol â'u dymuniadau.

Gwelsom fod amserau ymweld penodol ar y ward, ond dywedodd y staff bod peth hyblygrwydd pan roedd angen. Roedd hyn yn amlwg gydag un claf a oedd mewn ystafell sengl fechan, a oedd yn cael cymorth gan berthynas trwy gydol ein hymweliad.

Nid oedd ystafell ymwelwyr i gleifion siarad gyda pherthnasau i ffwrdd o'r Ward. Fodd bynnag, roedd yna ystafell aros ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol a oedd ar gael gyda'r nos ac ar benwythnosau. Byddai'n fuddiol i'r cleifion pe gellid hyrwyddo'r ystafell hon fel ystafell ddydd. Byddai'n rhoi egwyl o'r ward a hefyd yn annog symud o gwmpas ac annibyniaeth.

Bod yr ystafell aros ar gyfer cleifion allanol yn cael ei defnyddio fel ystafell ddydd gyda'r nos ac ar benwythnosau.

Gorffwys, Cysgu a Gweithgareddau

Rhoi ystyriaeth i amgylchedd a chysur pobl er mwyn iddynt fedru gorffwys a chysgu.

Gwelsom fod digon o obenyddion a blancedi ar gael a gwelsom staff yn holi a oedd cleifion yn gyfforddus. Roedd y cwpwrdd lliniau wedi ei stocio'n dda a dywedodd y staff ei fod yn cael ei lenwi bob dydd.

Dywedodd y staff bod y goleuadau yn cael eu troi i lawr oddeutu 10.00 – 10.30pm er mwyn annog gorffwys a chysgu.

Sicrhau Cysur, Lliniaru Poen

Rhaid helpu pobl i fod mor gyfforddus ac yn rhydd rhag poen ag y mae eu hamgylchiadau yn caniatáu.

Gwelsom dystiolaeth yn siartiau meddyginiaeth y cleifion a arolygwyd, fod un claf yn derbyn analgesia priodol a bod yr effeithiau yn cael eu monitro. Serch hynny, dywedodd claf arall wrthym nad oedd ei thriniaeth lladd poen hi wedi bod yn ddigonol y noson flaenorol ac roedd wedi siarad ag uwch nyrs ynglŷn â'r mater y bore hwnnw. Roedd y meddygon meddygol wedi eu galw i ddatrys y broblem.

Gwelsom weithwyr cymorth gofal iechyd yn symud dillad gwely a chlustogau ar gadeiriau i gynorthwyo gyda chysur a dywedwyd wrthym, os oedd cleifion yn cwyno am boen, fod y nyrsys staff yn cael eu hysbysu ar unwaith.

Gwelsom dystiolaeth o becyn asesu poen³ yn cael ei ddefnyddio gyda dau glaf yr oedd eu hachosion yn cael eu holrhain. Roedd y rhain wedi eu cwblhau'n briodol ac roedd y cofnodion wedi eu diweddarau.

Glendid Personol, Ymddangosiad a Gofal Traed

Rhaid cefnogi pobl i fod mor annibynnol ag y bo modd o ran gofalu am eu glendid personol, ymddangosiad a thraed.

Gwelsom gymorth priodol a/neu anogaeth yn cael ei roi i hybu glendid personol da. Gwelwyd staff yn cerdded gyda'r cleifion i'r ystafell ymolchi ac yn ôl.

³ Mae pecynnau asesu poen yn broses systematig o asesu, mesur ac ail-asesu poen (ail-werthuso),

Dywedodd cleifion bod dysglau yn cael eu dwyn at y gwely os oedd symud yn anodd.

Dywedwyd wrthym bod stoc o gribau gwallt ar gael i'r rhai oedd eu hangen. Ni ddywedodd unrhyw glaf eu bod wedi cael cynnig un, ac nid oeddynt wedi gofyn am un 'chwaith.

Er bod y gweithiwr cymorth gofal iechyd yn dweud bod cleifion yn cael eu hannog i wisgo eu dillad eu hunain, ni welsom unrhyw gleifion yn gwisgo dillad dydd ac eithrio'r rhai a oedd yn aros i gael eu rhyddhau.

Roedd pob un o'r cleifion y siaradwyd â hwy ar ddiwrnod yr arolygiad yn edrych yn lân ac yn derbyn gofal da.

Bwyta ac Yfed

Rhaid cynnig dewis o fwyd a diod i bobl sy'n diwallu eu gofynion maethol a phersonol a bod cleifion yn cael unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta ac yfed.

Bu i ni arsylwi amser bwyta – roedd y ward wedi addasu'r system Hambwrdd Coch⁴ i system o Napcynau Coch oherwydd problemau gyda maint yr hambyrddau. Roedd hyn yn dangos meddwl yn arloesol tra'n cadw at hanfod y system, sydd i sicrhau bod cleifion sydd angen cymorth gyda bwyta ac yfed yn cael eu hadnabod yn gynnil.

Gwelsom fod gan bob hambwrdd bwyd hances unigol i gleifion ei defnyddio cyn ac ar ôl bwyta. Mae hyn yn enghraifft o arfer dda.

Er bod tystiolaeth bod amser bwyta'n cael ei amddiffyn, nodwyd bod dau feddyg meddygol wedi mynychu'r ward, ond bod staff nyrsio wrth wrthod iddynt fynd at y cleifion.

Roedd y bwyd yn edrych yn faethlon a dywedodd y staff bod cleifion yn cael gofyn am ddogneau maint gwahanol; yr hyn welsom ni fodd bynnag oedd bod y dognau i gyd yn edrych yn debyg iawn o ran maint.

Roedd tystiolaeth, yn ffeiliau nyrsio'r cleifion yr edrychwyd arnynt, bod asesiadau maeth⁵ wedi eu gwneud. Roedd y rhain wedi eu harolygu yn

⁴ Mae'r system Hambwrdd Coch yn helpu i leihau risgiau maeth mewn ysbytai trwy roi arwydd bod cleifion sy'n agored i niwed angen help a chymorth gan staff, neu nad ydynt yn bwyta'n dda.

⁵ Defnyddir asesiad maeth i werthuso statws maethol, adnabod anhwylderau maethol a phenderfynu pa unigolion sydd angen cyfarwyddiadau a/neu gymorth.

briodol. Roedd tystiolaeth hefyd bod siartiau cydbwysedd hylif⁶, a oedd yn cael eu diweddarau bob dydd.

Ar ddiwrnod yr arolygiad roedd yn arbennig o gynnes, ac er na welsom unrhyw jygiau dŵr gwag, ni welsom rai yn cael eu newid neu eu hail-lenwi chwaith. Adroddwyd ar hyn i'r Uwch Reolwyr yn ystod y sesiwn adborth.

Iechyd a Glendid Geneuol

Rhaid rhoi cymorth priodol, diffwdan a phrydlon pan fo angen, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw anghenion penodol a phreifatrwydd.

Roedd yn amlwg bod cleifion yn cael eu cynorthwyo i gadw eu ceg yn iach ac yn gyfforddus, a dannedd a chig y dannedd yn ddi-boen, gan eu galluogi i fwya'n dda a rhwystro problemau cysylltiedig.

Dywedwyd wrthym bod stoc o frwshys dannedd a phast ar gael i'r rhai oedd eu hangen.

Er na welwyd y bwndel Iechyd a Glendid Geneuol Cymru Gyfan ym mhob un o'r nodiadau, gwelwyd asesiadau gofal geneuol mewn rhai. Ni welsom unrhyw faterion a achosai bryder mewn perthynas ag iechyd a glendid geneuol.

Anghenion Toiled

Rhaid rhoi cymorth priodol, diffwdan a phrydlon pan fo angen, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw anghenion penodol a phreifatrwydd.

Atebwyd clychau galw yn amserol, ac ni ddywedodd unrhyw glaf eu bod yn profi trallod o ganlyniad i orfod aros am gymorth.

Nid oedd cofnod i'w weld bod unrhyw un wedi ei atgyfeirio at y nyrs ymatal arbenigol. Gall y canfyddiadau uchod olygu nad yw anghenion ymatal rhai cleifion yn cael eu diwallu'n llwyr.

Roedd toiledau yn lân gyda thyweli llaw papur a sebon mewn cyflenwyr ar gael.

Roedd cleifion a oedd yn medru yn cael eu hannog i symud i'r toiledau. Roedd y rhai a oedd angen comôd yn cael eu trin gydag urddas a pharch, gan sicrhau bod eu preifatrwydd yn cael ei sicrhau bob amser.

⁶ Mae siartiau cydbwysedd hylif yn gofnodion dyddiol o fewnbwn ac allbwn hylif claf. Mewn claf nad oedd yn cael yfed trwy ei geg, mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod angen rhoi'r holl hylif trwy wythien.

Gwelsom fod stoc ddigonol o gymhorthion ymatal ar gael, ond ni welsom unrhyw asesiadau ymatal mewn unrhyw ffeil claf y bu i ni olrhain yr achos, i sicrhau bod cleifion yn derbyn y cymhorthion ymatal o'r maint priodol.

Rhwystro Briwiau Pwyso

Rhaid helpu pobl i ofalu am eu croen a gwneud pob ymdrech i'w rhwystro rhag datblygu briwiau pwyso.

O gael ei dderbyn i'r ward, mae pob claf yn cael asesiad o gyflwr ei groen.

Gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau gofal y cleifion bod pecynnau rhwystro briwiau pwyso yn cael eu defnyddio i asesu a monitro unrhyw ddirywiad yn y croen.

Ansawdd Rheoli Staff ac Arweinyddiaeth

Yn ystod yr arolygiad hwn rydym wedi gwneud **un** canfyddiad sy'n galw am welliannau yn y maes hwn. Manylir ein gofyniad yn Atodiad A.

Yn gyffredinol, gall cleifion fod yn hyderus bod y gwasanaeth, adeg yr arolygiad, i'w weld yn cael ei redeg yn dda gyda gofal a sylw dyladwy i safonau gofal proffesiynol.

Nid oedd Rheolwr y Ward na'i dirprwy ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad, ond roedd nyrs alluog a phroffesiynol iawn yn gofalu am y Ward, a hwylusodd redeg y ward a'r broses arolygu yn llyfn. Roedd diwylliant agored a thryloyw gyda'r staff yn amlwg yn cefnogi ei gilydd i sicrhau gofal o ansawdd da i gleifion.

Roedd nifer a chymysgedd sgiliau derbynol ar ddyletswydd i ddiwallu anghenion y cleifion ar y ward. Awgrymodd trafodaeth gyda'r staff, fodd bynnag, nad oedd hyn bob amser yn wir a bod dibyniaeth gynyddol wedi bod yn y misoedd diweddar ar nyrsys banc ac asiantaeth i gyrraedd y niferoedd staff angenrheidiol. Awgrymwyd bod hyn oherwydd bod staff yn cael eu cyflogi i weithio ar ward lawfeddygol gan mai dyma eu maes arbenigol a'r practis nyrsio roeddynt yn ei ddewis. Fodd bynnag, roedd cynnydd yn nifer y cleifion meddygol a oedd yn cael eu derbyn, gyda'r ward weithiau yn cynnwys cleifion meddygol yn bennaf.

Dangosodd trafodaeth gyda staff y ward bod y tîm yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan Uwch Reolwyr er bod y strwythur rheoli wedi newid yn ddiweddar ac weithiau dim ond un Uwch Nyrs oedd ar y safle ar unrhyw adeg.

Nodwyd arweinyddiaeth effeithiol, gyda thystiolaeth bod y ward yn effeithiol a digynnwrf, gyda nifer o fecanweithiau arferol i sicrhau bod gofal cleifion yn cael ei gyflenwi'n effeithlon. Yn ystod yr arolygiad roedd y nyrs â gofal am y Ward yn medru rhoi gwybodaeth gryno i ni ynglŷn â'r Ward ac anghenion y cleifion.

Dywedodd Myfyrwraig wrthym ei bod yn cael cefnogaeth dda ar y ward a'i bod yn mwynhau ei phrofiadau. Teimlai bod ei Mentor yn sicrhau ei bod yn cael y cyfleoedd i gyflawni ei hamcanion penodol.

Arsylwyd y staff Domestig a Gwesteiwyr y Ward, yn gweithio fel rhan o'r tîm. Roeddynt i gyd wedi eu hysbysu o anghenion cleifion unigol gan gynnwys gofynion arbennig a gofynion hylif a maethol.

Mae angen i'r Uwch Dîm Rheoli ystyried pam ei bod yn anodd recriwtio a chadw staff ar y ward hon.

Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol

Rhaid hyrwyddo ac amddiffyn iechyd, diogelwch a lles pobl yn weithredol. Rhaid adnabod risgiau, eu monitro a lle'n bosibl, eu lleihau neu eu rhwystro.

Yn ystod yr arolygiad hwn rydym wedi gwneud **wyth** canfyddiad sy'n gofyn am welliannau yn y maes hwn. Manylir ein gofynion yn Atodiad A.

Yn gyffredinol, mae amgylchedd y ward yn lân, yn ffres ac ymddengys bod safonau glendid yn cael eu cynnal. Dangosodd sgysrsiau gyda chleifion eu bod yn fodlon gyda glendid eu hardaloedd hwy a dangosodd trafodaeth gydag aelod o'r staff domestig eu bod wedi derbyn hyfforddiant priodol i'w cynorthwyo yn eu rôl. Serch hynny, mae angen mynd i'r afael â rhai meysydd er mwyn gynnal amgylchedd diogelach.

Diogelwch Cleifion

Roedd problem gyda lle storio, gyda silindrau ocsigen yn cael eu storio yn y cwpwrdd llyeiniau heb arwydd ar y drws i rybuddio bod perygl posibl i staff. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn awgrymu y dylid cadwyno neu glampio silindrau i'w rhwystro rhag syrthio a dylid eu storio, pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, mewn man sydd wedi ei awyru yn dda, ddim yn agos at unrhyw ddeunyddiau fflamadwy ac ar wahân i silindrau nwy fflamadwy.

Roedd y teclyn codi wedi ei storio yn y coridor ac roedd y comodau, er eu bod yn lân, wedi eu storio yn yr "ystafell amlbwrpas fudr". Rhaid i staff sicrhau bod comodau glân yn cael eu storio i ffwrdd o'r tanc malu neu unrhyw fan lle mae posibilrwydd o draws-halogiad.

Roedd tystiolaeth bod y ward yn defnyddio pecynnau cydnabyddedig i fonitro ac archwilio effeithiolrwydd clinigol mewn meysydd megis doluriau gwasgu a chwympo.

Roedd staff yn ymwybodol o bolisiau a gweithdrefnau Cymru Gyfan ar gyfer Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed a rhoddodd y nyrs â gofal enghraifft lle'r oedd wedi defnyddio'r broses hon i adrodd am sefyllfa a oedd yn achosi pryder.

Rhaid storio silindrau ocsigen yn briodol.

Pan fydd comodau yn lân rhaid eu storio i ffwrdd o'r tanc malu neu unrhyw fan lle mae posibilrwydd o draws-halogiad.

Rheoli Meddyginiaeth

Gwelsom feddyginiaeth yn cael ei gweini mewn modd diogel, heb frysio. Roedd tabard coch 'peidiwch â thorri ar draws' ar gael, ond nid oedd y nyrs yn ei wisgo oherwydd iddi ddweud nad oedd yn ffitio. Arolygwyd yr ystafell amlbwrpas lân lle'r oedd y cyffuriau yn cael eu storio a chanfuwyd, er bod yr oergell cyffuriau a'r holl gypyrddau wedi eu cloi, roedd clo'r prif ddrws wedi torri. Hysbyswyd y nyrs staff â gofal o hyn a chafodd y mater ei drin yn ystod ein hymweliad.

Edrychwyd ar y llyfr cofnodi cyffuriau rheoledig a chafwyd fod popeth yn gywir. Un sylw, fodd bynnag, yw y gallai'r mynegai yn nhw blaen y llyfr fod yn gliriach. Roedd llawer o bethau wedi eu croesi allan a gallai hyn arwain at gamgymeriad.

Nid oedd polisi hunanfeddyginiaethu. Ar hyn o bryd, mae'r Ward yn cadw'r holl feddyginiaeth a ddaw i mewn gyda'r claf ac yn ei rhoi yn ôl adeg rhyddhau. Nid yw hyn yn rhoi cyfle i'r claf, pan fedr wneud hynny, gymryd ei feddyginiaeth ei hun.

Roedd digon o flychau offer miniog, nad oeddent wedi eu gorlenwi.

Roedd problem gyda'r feddyginiaeth a ragnodwyd i'r cleifion fynd adref gyda nhw, lle'r oedd y meddygon yn rhyddhau cleifion yn ystod y rownd ward yn y bore ond yn dychwelyd ar ôl cinio i ysgrifennu'r feddyginiaeth (TTO). Yn anochel, nid yw'r Fferyllfa yn medru darparu'r feddyginiaeth mewn pryd i ryddhau cleifion ac mae yna oedi cyn iddynt fedru mynd adref.

Dywedodd y staff bod "protocol benthyca meddyginiaeth" rhwng y ward a'r wardiau meddygol oherwydd y nifer fawr o gleifion meddygol sydd ar y Ward hon.

Mae angen arolygu'r mynegai yn y llyfr Cofnodion Cyffuriau Rheoledig.

Mae angen arolygu'r drefn o ragnodi meddyginiaeth TTO.

Mae angen i'r ward ddatblygu polisi hunanfeddyginiaethu.

Cadw Cofnodion

Esboniodd y nyrs staff y system DATIX⁷ ac roedd yn amlwg yn gyfarwydd gyda'i defnyddio. Dywedwyd wrthym gan glaf ynglŷn â digwyddiad dros nos. Nid oedd hyn wedi ei gofnodi, ond hysbyswyd y nyrs staff ar unwaith a'r Rheolwyr yn ystod y sesiwn adborth.

⁷ Mae meddalwedd DATIX yn becyn a ddefnyddir o fewn y GIG i gofnodi, archwilio, dadansoddi achosion o ddigwyddiadau andwyol a methiannau agos.

Roedd tystiolaeth o egwyddorion trosfwaol y Fenter 1000 o Fywydau⁸ yn cael eu defnyddio ar y Ward ac roedd tystiolaeth a gofnodwyd o ddefnyddio “bwndeli” priodol.

⁸ Nod yr *Ymgyrch 1000 o Fywydau* yw gwella diogelwch cleifion a gwella ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Rhaid gwneud cofnodion Datix yn amserol.

Gofal Diabetig

Roedd nyrs gyswllt diabetig ar y ward, ac roedd staff o bob gradd yn ymwybodol pwy ydoedd.

Roedd staff wedi cael hyfforddiant ar fonitro glwcos yn y 9 mis diwethaf. Roedd y fenter “ThinkGlucose”⁹ yn cael ei chyflenwi ar y Ward ac roedd y staff yn medru dangos y ffeil adnoddau yn y swyddfa i'r arolygwyr.

Roedd gan y ward flychau “hypo”¹⁰ rhag ofn bod argyfwng ac roedd pob aelod staff yn gwybod lle'r oeddynt.

Gwelsom fod staff yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i hunan-reoli eu diabetes a dywedodd staff bod rhai cleifion yn meddu ar wybodaeth dda ac yn brofiadol o ran rheoli eu cyflwr.

Nid oedd tystiolaeth bod DAFNE¹¹ / DAFYDD¹² yn cael eu hyrwyddo ar y ward ac nid oedd y staff yn sicr o ystyr yr acronymau. Nid yw hyn yn unigol i'r ward hon ac mae angen i BIPHDd ymgorffori'r syniad a'i integreiddio ym mholisi'r ysbyty i reoli diabetes.

Roedd tystiolaeth bod staff yn cysylltu â'r Nyrs Diabetes Arbenigol, taflenni gwybodaeth a deiet arbennig i sicrhau bod cleifion diabetig yn cael eu rheoli'n ddiogel.

Roedd dau weithiwr cymorth gofal iechyd ar hyn o bryd yn dilyn cwrs hyfforddi ar ofal traed mewn diabetes.

⁹ Mae 'Think Glucose' yn fenter genedlaethol a redir gan Sefydliad y GIG ar gyfer Arloesi a Gwella. Ei nod yw gwella gofal diabetes cleifion gan gynnwys defnyddio'r tîm diabetes arbenigol ar gyfer cleifion mewnol.

¹⁰ Mae blwch 'hypo' yn cynnwys yr holl offer perthnasol i staff drin diabetes mewn argyfwng yn ogystal â chanllawiau ar gyfer rheoli'r argyfwng hwnnw'n effeithiol.

¹¹ Mae DAFNE (Dose Adjustment For Normal Eating) yn ffordd o reoli diabetes Math 1 ac yn rhoi'r sgiliau gofynnol i bobl amcangyfrif y carbhydradau ym mhob pryd bwyd a chwistrellu'r ddogyn gywir o inswlin.

¹² Mae DAFYDD (Dose Adjustment For Your Daily Diet) yn rhaglen addysg ar gyfer pobl gyda diabetes Math 1.

Bod hyfforddiant ymwybyddiaeth DAFNE/DAFYDD yn cael ei gynnig i staff yr ysbyty a bod y syniad yn cael ei fabwysiadu o fewn polisi rheoli diabetes yr ysbyty.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd lechyd gwblhau Cynllun Gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno eu Cynllun Gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai Cynllun Gwella'r Bwrdd lechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ar Ward Rhiannon, Ysbyty Bronglais, yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn gyfundrefnol ar draws adrannau / unedau eraill y Bwrdd lechyd.

Caiff Cynllun Gwella'r Bwrdd lechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar Urddas a Gofal Sylfaenol.

Atodiad A

Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella
Ysbyty: Ysbyty Bronglais
Ward / Adran: Ward Rhiannon
Dyddiad yr arolygiad: 17 Gorffennaf 2014

Cyf Para	Canfyddiad	Gofyniad	Camau gan y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Hanfodion Gofal					
4.4	Er bod nodiadau'r cleifion yn cynnwys gwybodaeth bersonol ac asesiadau risg priodol, gwelsom fod y cynlluniau gofal yn rhai generig, heb fod yn canolbwyntio ar y claf, ac fe gadarnhawyd hynny wrth drafod gyda'r staff. Felly nid oes tystiolaeth bod gofal unigol yn cael ei hyrwyddo. Roedd cofnodion yn nodi bod gofal wedi ei roddi yn unol â'r cynllun ond dim tystiolaeth o werthuso i sicrhau bod gofal yn effeithiol. Gwelsom dystiolaeth o waith cynllunio rhyddhau da gydag atgyfeiriadau i'r gwasanaethau cymunedol priodol.	Mae angen i'r dogfennau nodi anghenion nyrsio, ymyraethau amlinell ac effeithiolrwydd triniaeth. Mae angen gwneud hyn ar fformat sy'n hawdd ei ddefnyddio.	Cynnig hyfforddiant ychwanegol i'r staff ar ddefnyddio'r Dogfennau Nyrsio Staff i'w hysbysu yng nghyfarfod nesaf y ward i sicrhau bod gwerthusiad gofal yn cael ei gofnodi'n glir. Caiff hyn ei fonitro gan reolwr y ward trwy gyfrwng archwiliadau cadw cofnodion.	Rheolwr Ward Rhiannon Rheolwr Ward Rhiannon	3 mis 1 mis
4.6	Edrychwyd ar nodiadau meddygol y cleifion a gweld bod achosion lle'r oedd	Mae angen i	Hysbysu'r meddygon yn y Rownd	Pennaeth	3 mis

	y meddygon meddygol wedi cofnodi gwybodaeth, wedi llofnodi ond heb brintio eu henw na'u teitl. Mae arferion da yn gofyn bod meddygon yn llofnodi ac yna yn printio eu henw a'u teitl. Bydd hyn yn dangos pwy sy'n cofnodi, cymryd penderfyniad neu'n cytuno gyda'r penderfyniadau. Mae hyn yn ofyniad yn y canllawiau Arferion Meddygol Da ¹ : Parth 1, adran 21. Hefyd, roedd un set o nodiadau claf nad oedd ganddynt ffolder werdd. Roedd hyn yn risg posibl gan nad oedd y dogfennau yn edrych fel set o nodiadau i ddechrau.	feddygon lofnodi, printio a nodi eu teitl wrth wneud cofnodion yn nodiadau'r cleifion Mae angen ffeilio nodiadau cleifion yn briodol ac yn amserol	Fawr o bwysigrwydd printio eu henwau, teitl a'r dyddiad wrth lofnodi cofnodion meddygol Staff i'w hysbysu yng nghyfarfod nesaf y ward o bwysigrwydd ffeilio nodiadau yn amserol. Caiff hyn ei gofnodi yng nghofnodion cyfarfod y Ward a'i fonitro gan reolwr y ward	Bydwreigiaeth ac Iechyd Merched Rheolwr Ward Rhiannon	1 mis
4.9	Yn ystod yr arolygiad, gwelwyd ymdrechion gan staff i warchod hawliau dynol sylfaenol cleifion i urddas, preifatrwydd a dewis. Cawsom hefyd bod y gofal a roddwyd ar y ward yn cymryd galluoedd a dymuniadau cleifion i ystyriaeth yn hyn o beth. Roedd hyn oherwydd bod tystiolaeth bod staff yn sicrhau preifatrwydd ac urddas trwy gau drysau a llenni cyn ymgymryd ag unrhyw ofal personol. Ni welsom arwyddion preifatrwydd yn cael eu defnyddio ar y llenni o amgylch y gwelyau ond ni welsom unrhyw staff yn mynd i mewn, ac eithrio i gynorthwyo	Mae angen i'r Ward sicrhau bod pegiau preifatrwydd ar gael.	Nid yw pegiau preifatrwydd ar gael bellach ar y ward gan fod llenni tafladwy yn cael eu defnyddio ar y ward sy'n dod gyda'r geiriau Do Not Enter arnynt sy'n amlwg pan fo'r llenni ar gau		

¹ *Good Medical Practice* yw'r canllawiau ar ddyletswyddau meddyg sydd wedi ei gofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol

	gyda gofal, pan roedd y lleni ar gau. Dywedodd y staff bod cyfrinachedd yn cael ei sicrhau trwy drafod unrhyw faterion personol ar adegau tawelach neu trwy siarad yn gynnil y tu ôl i lenni'r gwely.				
4.12	Nid oedd tystiolaeth bod arwyddion priodol i gynorthwyo pobl gydag anawsterau gwybyddol i ddefnyddio'r cyfleusterau gofal personol yn annibynnol.	Rhaid i'r Ward sicrhau bod arwyddion priodol ar gael i gynorthwyo cleifion gydag anawsterau gwybyddol i gynnal eu hannibyniaeth hyd eithaf eu gallu	Bydd rheolwr y ward yn cysylltu gyda'r Cyd-gysylltydd Gofal Dementia i gael cyngor ar yr arwyddion priodol y gellid eu prynu i gynorthwyo cleifion gyda nam gwybyddol.	Rheolwr Ward Rhiannon	6 mis
4.13	Nid oedd ystafell ymwelwyr i gleifion siarad gyda pherthnasau i ffwrdd o'r Ward. Fodd bynnag, roedd yna ystafell aros ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol a oedd ar gael gyda'r nos ac ar benwythnosau. Byddai'n fuddiol i'r cleifion pe gellid hyrwyddo'r ystafell hon fel ystafell ddydd. Byddai'n rhoi egwyl o'r ward a hefyd yn annog symud o gwmpas ac annibyniaeth.	Bod yr ystafell aros ar gyfer cleifion allanol yn cael ei defnyddio gyda'r nos ac ar benwythnosau.	Mae'r ystafell ddydd ar gael i'r cleifion ei defnyddio. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyfyngiadau. Bydd rheolwr y ward yn ail-adrodd hyn i'r staff yng nghyfarfod nesaf y ward ac yn sicrhau bod cleifion yn defnyddio'r ystafell aros fel y dymunant. Arwyddion i'w gosod yn annog cleifion i ddefnyddio'r ystafell	Rheolwr Ward Rhiannon	1 mis

			ddydd ar unrhyw adeg.		
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
4.40	Roedd nifer a chymysgedd sgiliau derbyniol ar ddyletswydd i ddiwallu anghenion y cleifion ar y ward. Awgrymodd trafodaeth gyda'r staff, fodd bynnag, nad oedd hyn bob amser yn wir a bod dibyniaeth gynyddol wedi bod yn y misoedd diweddar ar nyrsys banc ac asiantaeth i gyrraedd y niferoedd staff angenrheidiol. Roedd hyn, awgrymwyd, oherwydd bod staff yn cael eu cyflogi i weithio ar ward lawfeddygol gan mai dyma eu maes arbenigol a'r practis nyrsio roeddynt yn ei ddewis. Fodd bynnag, roedd cynnydd yn y nifer o gleifion meddygol a oedd yn cael eu derbyn, gyda'r ward weithiau yn cynnwys cleifion meddygol yn bennaf.	Mae angen i'r Uwch Dîm Rheoli ystyried pam fo recriwtio a chadw staff yn anodd ar y ward hon	Adeg yr arolygiad, roedd 1.6 o swyddi cyfwerth ag amser cyflawn yn wag. Recriwtiwyd 1.0 cyfwerth ag amser cyflawn ac mae'r 0.6 sydd ar ôl yn wag gan nad oedd ymgeiswyr addas adeg cyfweld. Ers Ionawr 2014, dim ond un aelod staff rhan-amser sydd wedi ymddiswyddo o ward Rhiannon. Nid oedd cadw staff ar ward Rhiannon yn broblem. Defnyddir staff banc ac asiantaeth ar adegau o salwch byrdymor ac angen uchel. Mae'r swydd 0.6 cyfwerth ag amser cyflawn yn cael ei ail-hysbysebu.	Rheolwr Ward Rhiannon	1 mis
Ansawdd a Diogelwch					
4.45	Roedd problem gyda lle storio, gyda silindrau ocsigen yn cael eu storio yn y cwpwrdd llieiniau heb arwydd ar y drws i rybuddio bod perygl posibl i staff. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a	Rhaid storio silindrau ocsigen yn briodol.	Darn o'r ward i'w adnabod fel man storio addas ac ymgymryd â'r mân waith angenrheidiol i sicrhau bod y silindrau yn cael eu	Rheolwr Ward Rhiannon	6 mis

	Diogelwch (HSE) yn awgrymu y dylid cadwyno neu glampio silindrau i'w rhwystro rhag syrthio a dylid eu storio, pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, mewn man sydd wedi ei awyru yn dda, ddim yn agos at unrhyw ddeunyddiau fflamadwy ac ar wahân i silindrau nwy fflamadwy.		storio'n ddiogel		
4.46	Roedd y comodau, er eu bod yn lân, wedi eu storio yn yr "ystafell amlbwrpas fudr", yn agos at y tanc malu	Rhaid storio comodau, ar ôl eu glanhau, i fwrdd oddi wrth y tanc malu lle mae posibilrwydd o draws-halogiad.	Mae safonau Cymdeithas Rhwystro Heintiad yn cydnabod y bydd comodau yn cael eu storio mewn ystafelloedd amlbwrpas 'budr' ac yn dweud bod y safonau disgwyledig yn dweud eu bod mewn cyflwr trwsiadus da; yn lân o edrych arnynt ac yn barod i'w defnyddio a bod system yn bodoli i sicrhau hyn. Mae system yn bodoli hefyd i sicrhau bod seliau'r tanc malu yn gyflawn fel nad oes erosolau yn dianc. Caiff trefniant yr ystafell amlbwrpas fudr ar Rhiannon ei arolygu i sicrhau bod y comodau yn cael eu storio cyn belled i fwrdd o'r tanc malu a'r sinc golchi ag y bo modd i sicrhau nad oes unrhyw ddiferion yn medru halogi'r comodau glân.	Nyrs Rheoli Heintiad a Rheolwr Ward Rhiannon	1 mis
4.50	Edrychwyd ar y llyfr cofnodi cyffuriau rheoledig a chafwyd fod popeth yn	Mae angen	Mae'r llyfr Cofnodi Cyffuriau	Rheolwr Ward	Cwblhawyd

	gywir. Un sylw, fodd bynnag, yw y gallai'r mynegai yn nhu blaen y llyfr fod yn gliriach. Roedd llawer o bethau wedi eu croesi allan a gallai hyn arwain at gangymeriad.	adolygu'r dudalen fynegai yn y Llyfr Cofnodi Cyffuriau Rheoledig	Rheoledig wedi ei adnewyddu felly nid yw hyn yn broblem bellach. Caiff arferion priodol mewn perthynas â dogfennau cofrestru cyffuriau rheoledig eu hatgyfnerthu ar draws y ward/Bwrdd Iechyd	Rhiannon/ uwch Nyrs Rheoli Meddyginiaethu	
4.51	Nid oedd polisi hunanfeddyginiaethu. Ar hyn o bryd, mae'r Ward yn cadw'r holl feddyginiaeth a ddaw i mewn gyda'r claf ac yn ei roi yn ôl adeg rhyddhau. Nid yw hyn yn rhoi cyfle i'r claf, pan fedr wneud hynny, gymryd ei feddyginiaeth ei hun	Mae angen i'r Ward ddatblygu polisi hunan-feddyginiaethu i gleifion. Mae angen arolygu'r broses sy'n gysylltiedig â rhagnodi meddyginiaeth TTO	Mae polisi Hunanfeddyginiaethu wedi ei gymeradwyo'n ddiweddar gan y Bwrdd Iechyd ac yn cael ei weithredu. Mae rheolwr y ward i arolygu gofynion hunanfeddyginiaethu ar y ward a gweithio gyda chydweithwyr priodol i gyflwyno hyn yn ddiogel ar y ward, yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd	Rheolwr Ward Rhiannon	6 mis
4.53	Roedd problem gyda'r feddyginiaeth a ragnodwyd i'r cleifion fynd adref gyda nhw, lle'r oedd y meddygon yn rhyddhau cleifion yn ystod y rownd ward yn y bore ond yn dychwelyd ar ôl cinio i ysgrifennu'r feddyginiaeth (TTO). Yn anochel, nid yw'r Fferyllfa yn medru darparu'r feddyginiaeth mewn pryd i ryddhau cleifion ac mae yna oedi cyn iddynt fedru mynd adref.	Mae angen arolygu'r broses o ragnodi meddyginiaeth TTO	Mae rheolwyr y ward ar wardiau Rhiannon a Cheredig yn ymgymryd â phrosiect ar y cyd i ystyried sut gellid gwella rhagnodi meddyginiaeth TTO	Rheolwr Ward Rhiannon a Rheolwr Ward Ceredig	6 mis

4.55	Dywedwyd wrthym gan glaf ynglŷn â digwyddiad dros nos. Nid oedd hyn wedi ei gofnodi, ond hysbyswyd y nyrs staff ar unwaith a'r Rheolwyr yn ystod y sesiwn adborth.	Rhaid gwneud cofnodion Datix (2) yn amserol.	Staff i'w hysbysu yng nghyfarfod nesaf y ward o bwysigrwydd cwblhau Datix yn amserol. Caiff hyn ei fonitro gan Reolwr y Ward pan fydd yn arolygu Datix.	Rheolwr Ward Rhiannon	1 mis
4.61	Nid oedd tystiolaeth bod DAFNE / DAFYDD yn cael eu hyrwyddo ar y ward ac nid oedd y staff yn sicr o ystyr yr acronymau.	Cynnig hyfforddiant ymwybyddiaeth DAFNE / DAFYDD i staff yr ysbyty a bod y syniad yn cael ei fabwysiadu o fewn polisi rheoli diabetes yr ysbyty.	Mae'r Bwrdd lechyd yn cynnig mynediad at raglen Addysg Cleifion Arbenigol i bobl gyda diabetes math 1 a 2, gan gynnwys y modiwl sy'n delio'n benodol ag inswlin. Nid oes gan y Bwrdd lechyd raglen DAFYDD na DAFNE ar draws y Bwrdd lechyd ar hyn o bryd er bod y Nyrsys Diabetes Arbenigol yn rhoi sesiynau addysg unigol gyda chleifion gyda diabetes Math 1 (i'r rhain y mae'r rhaglenni hyn yn berthnasol) pan fyddant yn ymweld. Trwy raglenni addysg safonol y Bwrdd lechyd ar ddiabetes sy'n cael eu datblygu a'u gweithredu ar draws y Bwrdd lechyd, bydd ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynorthwyo cleifion gyda'r ddau fath o ddiabetes i gynnal eu hunanreolaeth cyn belled ag y bo	Cydgysylltydd ThinkGlucose a'r tîm diabetes	3 mis

			modd pan fyddant yn yr ysbyty yn cael ei atgyfnerthu a'u bwysleisio. Bydd yr agwedd tuag at ddatblygu cyfres briodol o raglenni addysg i gleifion yn cael ei harolygu ac fe gymerir penderfyniadau trwy'r Fforwm Cyflenwi Gwasanaeth Diabetes	Cadeirydd Fforwm Cyflenwi Gwasanaeth Diabetes BIPHDd	3 mis
• Profiad y Claf					
4.65	Roedd staff wedi eu gwisgo yn unol â Chod Gwisg Cymru Gyfan, ond roedd rhai aelodau staff nad oeddent yn gwisgo bathodyn enw sy'n cynorthwyo cleifion i adnabod eu rôl ar dîm y ward.	Rhaid i bob aelod staff wisgo bathodyn adnabod	Mae'r staff i gyd yn gwisgo bathodynnau adnabod ond nid ydynt bob amser yn weladwy ac maent weithiau yn anodd eu darllen. Mae manyleb safonol ar gyfer bathodynnau adnabod i'w gwisgo gan holl staff clinigol yn cael ei chwblhau ac mae i'w chymeradwyo yn y man. Mae'r fanyleb wedi ei hasesu a'i chymeradwyo gan bobl â nam ar eu golwg. Unwaith y caiff y fanyleb ei chymeradwyo bydd rheolwr y ward yn trefnu arolygu'r bathodynnau adnabod a roddir i ac a wisgir gan y staff a sicrhau	Rheolwr Ward Rhiannon	3 mis

			eu bod yn cael eu gwisgo lle maent yn hawdd i'r cleifion eu gweld.		
4.70	Nodwyd nad oedd cyfleusterau radio, dim ond un teledu a dim gweithgareddau i'r cleifion a oedd yn gwella. Nid oedd lle eistedd cyffredin lle gallai'r cleifion sgwrsio. Fodd bynnag, roedd ystafell aros ddydd i gleifion dydd y gellid ei defnyddio gyda'r nos ac ar benwythnos a thrafodwyd hyn gyda'r staff fel ffordd ymlaen.	- Mae angen trefnu darpariaeth i sicrhau bod cleifion yn medru ymgymryd â gweithgareddau ystyrlon - Mae angen i staff hyrwyddo defnyddio'r ystafell aros pan fydd ar gael i annog cymdeithasu a symud o gwmpas.	Mae defnyddio 'blychau atgofion' y gellid eu defnyddio ar lefel y ward gyda chleifion wedi ei drafod. Codwyd rhai materion rheoli heintiad mewn perthynas â defnyddio cyfarpar cyffredin ar ward lawfeddygol y bydd angen ei ystyried ymhellach. Gofynnwyd i gleifion a/neu deuluoedd ddod â deunydd / cyfarpar perthnasol i mewn yn ystod eu harhosiad. Mae'r ystafell ddydd ar gael i'r cleifion ei defnyddio. Nid oes unrhyw gyfyngiad ar ei defnyddio ar unrhyw adeg. Bydd rheolwr y ward yn ail-adrodd hyn gyda'r staff yng nghyfarfod nesaf y ward a sicrhau bod cleifion yn cael eu hannog i ddefnyddio'r ystafell aros os dymunant. Arwyddion i'w gosod yn annog yr holl gleifion i ddefnyddio'r ystafell	Rheolwr Ward Rhiannon a'r Nyrs Rheoli Heintiad Rheolwr Ward Rhiannon	3 mis 1 mis

			ddydd ar unrhyw adeg.		
--	--	--	-----------------------	--	--